# Adroddiad ar

# Cylch Meithrin Chwilog

**Y Festri**
**Cael Uchaf**
**Pwllheli**
**LL53 6SH**

**Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2022**

**gan**

**Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)**

**a**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn â Cylch Meithrin Chwilog

| | |
|---|---|
| Enw’r lleoliad | Cylch Meithrin Chwilog |
| Categori’r gofal a ddarperir | Gofal Dydd Llawn |
| Person(au) cofrestredig | |
| Unigolyn cyfrifol (os yw’n berthnasol) | Tanya Williams |
| Person â gofal | Jade Colllins |
| Nifer y lleoedd | 14 |
| Amrediad oedran y plant | 2 – 4 oed |
| Nifer y plant a ariennir am hyd at 2 dymor | 5 |
| Nifer y plant a ariennir am hyd at 5 tymor | 0 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | 9:00 – 15:00 Llun i Gwener |
| Gwasanaeth Dechrau’n Deg | Nac oes |
| Iaith y lleoliad | Cymraeg |
| A yw’r Cynnig Gofal Plant ar gael yn y lleoliad hwn? | Ydw |
| Cynnig y Gymraeg yn Rhagweithiol | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' o ran y Gymraeg. Mae'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a allai ddefnyddio'r gwasanaeth. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | |
| Dyddiadau’r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 15/02/2022 |
| Cofrestrwyd y cylch ym Mis Medi 2022. Mae'r cylch wedi'i leoli yn festri Capel y pentref. Mae staff profiadol yn gweithio yno ac mae'r cylch yn cael ei reoli yn effeithiol gan bwyllgor gweithgar. | |

## Diffyg cydymffurfio

Ni chanfyddwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfiaeth yn ystod yr arolwg yma.

## Argymhellion

A1 Sicrhau bod pob aelod o staff yn ymgymryd â hyfforddiant statudol.

A2 Sicrhau cydbwysedd addas rhwng gweithgareddau sydd wedi eu hysgogi gan blant a'r rhai wedi eu harwain gan oedolion.

A3 Sicrhau ystod eang o adnoddau dysgu sydd yn hybu ymwybyddiaeth o ddiwylliannau amrywiol a chyfleoedd cyfartal

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy’n dangos sut y bydd yn mynd i’r afael â’r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

**Lles:**

Mae rhan fwyaf o blant yn gwneud dewisiadau bwriadus wrth fynd ati i ddewis gweithgareddau. Maent yn eiddgar wrth ddewis ble maent eisiau chwarae. Er enghraifft, mae rhai yn hapus i chwarae tu allan yn y gegin fwd a’r twba dŵr ac eraill yn dewis aros tu fewn i beintio neu chwarae yn y tŷ bach twt. Mae mwyafrif o blant yn hyderus i nôl eu ffrwyth a diod, ac ychydig yn dweud wrth ymarferydd drwy bwyntio a’u harwain at eu dewis. Mynega plant eu barn a’u dymuniadau'n glir. Er enghraifft, maent yn ddigon hyderus i ddweud pan nad ydynt am ganu. Maent yn gwybod bod eu barn a'u teimladau yn cael ei glywed a’i barchu.

Mae bron pob plentyn yn hapus ac yn gyfforddus yng ngofal yr ymarferwyr. Maent yn cyrraedd yn eiddgar ac ychydig ohonynt yn rhedeg i fewn heb ddweud hwyl fawr wrth eu rhieni neu ofalwyr. Maent yn ffurfio perthynas gadarnhaol gyda’r ymarferwyr a phlant eraill, sy’n hybu eu lles a’u profiadau dyddiol. Er enghraifft, maent yn pwyso’n gartrefol ar gôl ymarferydd wrth ddarllen llyfr neu yn derbyn cysur gofalgar pan yn teimlo’n drist am nag oes ganddynt ffrwyth i’w fwyta. O ganlyniad, mae bron pob un plentyn yn ymwybodol y bydd ymarferwyr yn gwrando ar eu dymuniadau ac yn ymateb yn briodol a synhwyrol i’w hanghenion.

Mae rhan fwyaf o blant yn ymddwyn yn dda iawn wrth chwarae. Mae llawer yn rhannu adnoddau yn frwdfrydig ac yn gofyn i’w gilydd i ymuno yn eu chwarae. Er enghraifft, galwa’r plant am eu ffrindiau “tyrd i helpu fi greu castell tywod!” cyn rhoi rhaw iddynt. Siaradant yn hyderus gydag ymarferwyr am eu ffrindiau gorau. Mae'r mwyafrif yn dechrau deall eu teimladau ac yn sensitif i emosiynau plant eraill. Er enghraifft, maent yn poeni wrth weld rhywun yn drist neu yn crio ac yn mynd ati i'w cysuro. Mae llawer yn dilyn rheolau yn aeddfed ac yn ymateb i gyfarwyddyd i dacluso ac eistedd ar y mat.

Mae rhan fwyaf o blant yn mwynhau ac yn ymddiddori yn eu cyfleoedd chwarae a dysgu, sydd yn creu naws hapus a llawn bwrlwm. Er enghraifft, maent yn chwerthin yn hapus wrth ganu cân ‘Mistar swnllyd ydw i’ gan gymryd rhan yn frwdfrydig. Defnyddia nifer o blant ddychymyg byw i droi’r car bach tu allan yn ‘fan beintio’. Maent yn nôl y brwsys a roleri paent o’r twba dŵr ac yn mynd yn y fan i beintio muriau a drws y sied.

Mae rhan fwyaf o blant yn datblygu medrau annibynnol priodol yn dda iawn ac yn golchi a sychu eu dwylo cyn byrbryd ac wedi chwarae tu allan. Mae bron pob plentyn yn bwyta yn annibynnol ac yn clirio ar eu hôl gan roi croen y ffrwyth yn y bin brown a dychwelyd eu platiau i’r gegin.

**Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir):**

Nid oes adroddiad ar ddysgu plant. Mae hyn oherwydd nad oedd digon o blant tair neu bedair oed yn bresennol ar adeg yr arolygiad, nad ydynt yn derbyn addysg a ariennir rywle arall, y gellid adrodd arnynt heb adnabod plant unigol.

## Gofal a datblygiad:

Mae ymarferwyr yn rhoi blaenoriaeth uchel i gadw plant yn ddiogel ac yn iach. Mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o'u rolau a'u cyfrifoldebau ac yn gweithredu holl bolisïau a gweithdrefnau'r lleoliad yn briodol. Mae tystysgrifau cymorth cyntaf cyfredol gan bron pob un ohonynt. O ganlyniad, mae ymarferwyr yn dilyn gweithdrefnau priodol wrth ddelio gydag unrhyw ddamweiniau. Mae'r holl ymarferwyr wedi derbyn hyfforddiant ar ddiogelu plant, ac felly yn deall beth i'w wneud petai ganddynt unrhyw bryder am blentyn. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder. Nid yw ymarferwyr wedi cwblhau hyfforddiant ar 'Ddyletswydd Atal'.

Mae gweithdrefnau ac arferion hylendid y lleoliad yn dda iawn ac anogir plant i olchi eu dwylo ar yr amseroedd priodol. Gwisga'r ymarferwyr fenig a ffedog pan yn paratoi bwyd a diod i'r plant. Mae asesiadau risg yn cael eu diweddaru yn rheolaidd ac mae trefn effeithiol ar gyfer glanhau ar ddiwedd pob sesiwn. Mae ymarferwyr yn dilyn gweithdrefnau cadarn pan yn trosglwyddo plant i'w rieni a gofalwyr a phan yn derbyn plant o'r ysgol.

Mae gan yr ymarferwyr berthynas agos a chynnes gyda'r plant ac maent yn eu trin gyda gofal a pharch. Maent yn adnabod y plant yn arbennig o dda ac yn trafod anghenion bron pob plentyn yn ddeallus. Mae'r ymarferwyr yn dilyn polisi ymddygiad yn effeithiol ac yn manteisio ar bob cyfle i ganmol y plant a dathlu eu llwyddiant wrth gyflawni tasg neu sgil benodol. Er enghraifft, mae ymarferwyr yn diolch iddynt am wrando a thacluso. Mae ymarferwyr yn rhyngweithio'n bositif ac yn dangos sensitifrwydd tuag at blant yn gyson ac yn fwriadus.  Er enghraifft, maent yn trafod a thynnu sylw'r plant at adnoddau neu weithgareddau eraill sydd o ddiddordeb iddynt.

Mae ymaferwyr yn gweithredu systemau pwrpasol i gefnogi plant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol ac yn cydweithio'n effeithiol gydag asiantaethau allanol yn rheolaidd. Maent yn cynnal adolygiadau yn ôl yr angen gan ganolbwyntio ar gynnydd y plentyn, ac sy'n cynnwys rhieni a gofalwyr a'r holl asiantaethau perthnasol. Mae ymarferwyr yn rhoi adborth i bob un rhiant a gofalwr ar ddiwedd sesiwn, gan ganolbwyntio ar lwyddiannau'r plant.

## Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir):

Yn ddiweddar mae'r lleoliad wedi bod yn dilyn agweddau o'r cwricwlwm newydd i leoliadau meithrin nas-gynhelir drwy arbrofi gyda chynllunio mewn ymateb i weithgareddau'r plant. Mae ymarferwyr yn trefnu'r sesiynau fel rhai chwarae rhydd, gan hwyluso'r dysgu trwy ddeall pryd i ymyrryd, a phryd i beidio. Mae gan pob ymarferydd ddealltwriaeth gadarn o ddatblygiad plant. Maent yn hybu datblygiad hyder y plant yn llwyddiannus.  Er enghraifft, maent yn rhoi cyfleoedd iddynt ddefnyddio ac ymchwilio ystod o adnoddau ysgogol, pan yn chwarae ar eu pennau ei hunain neu gyda phlant eraill.

Mae gan ymarferwyr berthynas waith hyfryd gyda'r plant. Maent yn cefnogi ac yn annog y plant yn fedrus, yn aml trwy ofyn cwestiynau agored perthnasol sy'n annog y plant i feddwl a darganfod drostynt eu hunain. Mae ymarferwyr yn ystyried pryd i ymyrryd er mwyn sicrhau bod y plant yn deall sut i drin adnodd newydd, er enghraifft wrth ddefnyddio syrinj enfawr yn y twba dŵr. Fodd bynnag, mae'r tasgau ar y cyfan

yn cael eu harwain gan y plant a does dim digon o gydbwysedd rhwng y gweithgareddau hyn a rhai wedi'u cyfeirio gan oedolion. Effaith hyn yw bod cyfleoedd i ddysgu yn ddigymell yn cael eu colli.

Mae gan yr ymarferwyr ddisgwyliadau uchel o’r plant, ac maent yn caniatau iddynt fod yn annibynnol a chymryd cyfrifoldebau.  Enghraifft dda o yn hyn yw’r disgwyliad fod y plant yn nôl eu byrbryd eu hunain i’r bwrdd pan fyddant am damaid i’w fwyta, ac yna tacluso ar eu holau pan fyddant wedi gorffen.

Mae ymarferwyr yn hyrwyddo datblygiad sgiliau'r plant yn effeithiol.  Maent yn darparu ardaloedd ysgogol sy’n denu’r plant i ymarfer ac i fireinio'u medrau corfforol, er enghraifft wrth sicrhau fod beiciau dwy a thair olwyn ar gael yn barhaus yn yr ardal tu allan. Maent yn cyflwyno geirfa gywir yn y Gymraeg ac yn sbarduno dychymyg y plant wrth drafod a darllen stori gyda nhw. Mae ymarferwyr yn modelu iaith lafar yn effeithiol gan atgyfnerthu geirfa gyfarwydd trwy gydol y sesiwn. Maent yn datblygu medrau mathemategol y plant yn naturiol yn ystod eu chwarae.  Er enghraifft, wrth ystyried sawl teilsen sydd angen eu gosod ar y llawr neu wrth adnabod priodweddau siapau i gwblhau pos. Maent yn annog y plant i ddatblygu creadigrwydd trwy ddarparu adnoddau gwahanol fel offer cerddorol ac ymgysylltu gyda nhw yn frwdfrydig. Mae’r ymarferwyr yn meithrin ymdeimlad a dealltwriaeth o degwch, parch a gonestrwydd yn y plant yn rheolaidd. Maent yn trafod tegwch mewn cymryd tro, pwysigrwydd dweud y gwir a sut i fod yn garedig yn aml wrth ddelio a thrafod gyda'r plant ym mhob gweithgaredd.

Mae pob ymarferydd yn deall eu rôl wrth asesu cynnydd y plant. Maent yn arsylwi ac yn cynorthwyo’r plant yn barhaus gan adael iddynt chwarae yn agored gyda mynediad at bob math o adnoddau. Mae’r asesiadau yn dechrau creu darlun manwl o gryfderau'r plant a’r camau nesaf yn eu datblygiad. Mae ymarferwyr yn sicrhau bod y plant sydd yn llai hyderus ar lafar yn derbyn cefnogaeth briodol.

**Yr amgylchedd:**

Mae’r plant yn derbyn gofal ac addysg mewn lleoliad sydd yn ddiogel ac yn lân. Mae pobl sy’n rhedeg y lleoliad wedi cofnodi a dileu risgiau di-angen i’r plant. Mae’r ymarferwyr yn ymwybodol iawn o faterion diogelwch a’r gofynion sydd arnynt i gynnal driliau tân rheolaidd. Mae’r safle yn ddiogel ac ni all ymwelwyr fynd at unrhyw ran o’r lleoliad oni bai fod ymarferwyr yn rhoi mynediad iddynt.

Mae’r ardaloedd wedi eu cynllunio i gynnig profiadau dysgu a chwarae effeithiol i’r plant. Mae’r gweithgareddau ysgogol yn yr ardaloedd mewnol yn annog y plant i arbrofi a chwarae'n annibynnol a bwriadus. Mae’r cyfleusterau fel ardal ddarllen, ardal chwarae rôl a chornel adeiladu yn bodloni anghenion y plant yn llwyddiannus. Ceir amrywiaeth difyr o adnoddau sydd o fewn cyrraedd hwylus i'r plant ymhob ardal. Fodd bynnag, nid oes adnoddau ar gael sy’n hybu ymwybyddiaeth ddiwylliannol a chyfleoedd cyfartal. Mae’r amgylchedd yn lliwgar, yn groesawgar a deniadol a cheir arddangosfeydd hyfryd o waith crefft y plant.

Gwneir defnydd cyson o’r amgylchedd allanol ac mae’r plant wrth eu boddau yn chwarae'n y twba dŵr, coginio yn y gegin fwd a datblygu medrau corfforol wrth feistroli cyd-bwysedd ar y beiciau. Maent yn mwynhau cyfleoedd i ymdawelu tu allan, yn ogystal a thu fewn, yn y ‘sied dawel’ yng nghanol y chlustogau mawr, golau isel ac amryw o lyfrau Cymraeg. Mae’r adnoddau tu fewn a thu allan o ansawdd da iawn, yn

lân ac yn hawdd eu cyrraedd, sy'n galluogi'r plant i wneud dewisiadau chwarae annibynnol yn llwyddiannus.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth:**

Ers sefydlu'r lleoliad yn eu cartref newydd, mae'r arweinydd a'r ymarferwyr wedi gweithio'n galed i sicrhau bod y plant yn ymgartrefu'n dda. Maent wedi sefydlu ethos weithgar sy'n hyrwyddo addysgu a datblygiad plant yn llwyddiannus. Mae pob ymarferydd yn rhannu'r un disgwyliadau uchel o bob plentyn.

Mae gan ymarferwyr berthynas gref gyda rhieni a gofalwyr. Maent yn cyfathrebu'n gyson er mwyn rhannu gwybodaeth am ddiddordebau a llwyddiannau'r plant. Mae gan ymarferwyr wybodaeth drylwyr am bob plentyn, ac yn gweithio'n barhaus i wella lles a dysgu pob unigolyn.

Mae'r arweinydd yn gweithredu proses briodol o hunan werthuso sy'n seiliedig ar gydweithio gyda'r ymarferwyr ac athrawes ymghynghorol y blynyddoedd cynnar i adnabod agweddau sydd angen eu gwella. Gwneir defnydd effeithiol o'r cynllun datblygu er mwyn ymateb i'r blaenoriaethau a nodwyd, a gwerthuso cynnydd.  Er enghraifft, wrth ymgyfarwyddo â'r ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol newydd a chyfoethogi'r ardal tu allan.

Mae'r lleoliad yn cydymffurfio â rheoliadau gwarchod plant a gofal dydd ac yn bodloni'r safonau gofynnol cenedlaethol. Mae gan y lleoliad ddatganiad o ddiben clir ac mae'r ddogfen yn rhoi darlun cywir o'r gwasanaeth a gynigir. Mae holiaduron a thrafodaethau gyda rhieni a gofalwyr yn cadarnhau bod ganddynt hyder yn yr arweinyddiaeth ac maent yn gwerthfawrogi'r ddarpariaeth.

Mae'r lleoliad yn rheoli cyllid yn synhwyrol gan sicrhau adnoddau addas ar gyfer ysgogi chwilfrydedd y plant yn yr amgylchedd, Er enghraifft, trwy ganolbwyntio'n ddiweddar ar ddarparu offer mawr yn yr ardal tu allan. Mae pob ymarferydd yn derbyn hyfforddiant addas ar gyfer eu rôl. Er enghraifft, maent yn parhau i ddysgu am ofynion y cwricwlwm newydd ar gyfer lleoliadau meithrin nas-gynhelir, gan gyflwyno dulliau amgen a gwerthuso effaith.

Mae'r lleoliad yn hybu ymwybyddiaeth y plant o'u cymuned leol er enghraifft trwy drefnu teithiau rheolaidd o gwmpas yr ardal. Ar un daith, cafodd y plant a'r ymarferwyr fyrbryd mewn gwesty lleol gyda'r plant yn gweini ei gilydd ac yn sgwrsio yn aeddfed gyda'r perchennog. Mae'r arweinydd yn cyd weithio'n llwyddiannus gyda nifer o sefydliadau ac asiantaethau perthnasol er mwyn hybu datblygiad y ddarpariaeth a lles y plant. Mae gan ymarferwyr berthynas dda gyda'r ysgol gynradd leol er mwyn hwyluso trefniadau pontio ar gyfer y plant.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://careinspectorate.wales) (www.estyn.llyw.cymru)

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2022:  Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.  Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi:  21/04/2022